COMMUNITY FOUNDATION

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Pennaeth Codi Arian ac Ymgysylltu Allanol

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

£38,588 - £51,818
Cyfwerth ag Amser Llawn
Bodlon siarad am weithio hyblyg.
Contract Parhaol

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw**
31 Gorffennaf

# Gwybodaeth

## am Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

**Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yw elusen swyddogol y clwb. Rydym ni'n defnyddio ysbrydoliaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i newid bywydau a thrawsnewid cymunedau.**

Rydym ni'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn goresgyn rhwystrau drwy feithrin ymdeimlad o berthyn i gyflawni ein hamcanion isod;

» Gwella iechyd a llesiant

» Cefnogi dysgu a sgiliau

» Creu cymunedau cryfach



# Gwybodaeth am y swydd

**Mae'r Pennaeth Codi Arian ac Ymgysylltu Allanol yn gyfrifol am adrodd ein stori a rhoi grym i'n gwaith. Byddwch yn goruchwylio'r gwaith o Codi Arian , datblygu partneriaethau, marchnata a chyfathrebu.**

Byddwch yn darparu gweledigaeth, arweinyddiaeth a dull ymarferol o ysbrydoli tîm bach sy'n gweithio mewn amgylchedd prysur. Mae'r swydd hon yn gyfle i ymuno ag elusen blaenllaw yn y maes chwaraeon er mwyn datblygu, sy'n defnyddio ysbrydoliaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i newid bywydau a thrawsnewid cymunedau.

Bydd gennych brofiad o weithredu strategaethau codi arian, marchnata a chyfathrebu a sicrhau twf. Byddwch yn arbenigwr ar feithrin perthnasau â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

Fel aelod o'n uwch dîm, byddwch yn cyfrannu at arweinyddiaeth strategol y sefydliad, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau strategol ac yn sicrhau'r effaith orau bosibl i ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Mae gennym ddiddordeb yn eich potensial ac rydym ni eisiau adeiladu tîm cryf sy'n perfformio'n dda ac sy'n llawn profiadau sy'n ategu ei gilydd, nid grŵp o bobl sydd â'r un persbectif. Rydym ni'n chwilio am yr ymgeiswyr gorau, felly rydym ni'n fodlon siarad am weithio hyblyg sy'n addas i'ch amgylchiadau chi.



# Sut mae gwneud cais

Os oes gennych chi ddiddordeb a bod gennych chi'r nodweddion priodol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon, llenwch yr holl wybodaeth a restrir isod yn y drefn gywir gan ddefnyddio'r **ddolen gysylltiedig**. Pennaeth Codi Arian ac Ymgysylltu Allanol

Cyflwynwch lythyr eglurhaol sy'n amlinellu eich profiad a'r pethau rydych chi wedi'u cyflawni mewn perthynas â'r disgrifiad swydd a'r manyleb person a llenwch y ffurflenni canlynol:

- Ffurflen Cyfle Cyfartal
- Ffurflen Hunan-Ddatganiad
- Ffurflen Gais am Swydd

**Sylwch, ni fyddwn yn gallu asesu eich cais oni bai bod yr holl eitemau uchod wedi'u cwblhau.*

Ein gweithlu yw ein hased pwysicaf, felly rydym wedi ymrwymo i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Felly, rydym ni'n agored i geisiadau gan bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd, sy'n gallu dod â sgiliau a phrofiadau unigryw i gysylltu â phobl a gyda'n cymunedau.

Mae Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Felly, mae swyddi sy'n cynnwys gweithio gyda grwpiau o'r fath yn amodol ar brotocolau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r swydd hon hefyd yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, anfonwch e-bost at **HR@cardiffcityfc.org.uk**



# Disgrifiad o’r Swydd

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | Pennaeth Codi Arian ac Ymgysylltu Allano |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr y Sefydliad |
| **Yn gyfrifol am:** | Swyddog Codi Arian, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu |
| **Lleoliad:** | Tŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd, Clos Parc Morgannwg, Caerdydd, CF11 8AW |
| **Math o Gontract:** | Parhaol |
| **Oriau contract:** | 37.5 awr yr wythnos |
| **Cyflog:** | £38,588 – £51,818 Cyfwerth ag Amser Llawn |

## Pwrpas y Swydd

The purpose of the role is to provide leadership of fundraising, partnership development, marketing and communications functions to drive the growth of the charity’s income.

## Prif Gyfrifoldebau

» Codi Arian.

» Datblygu Partneriaeth.

» Marchnata a Chyfathrebu.

## Y Prif Gyfrifoldebau

### Arweinyddiaeth Strategol

1. Dangos ymrwymiad i’n gweledigaeth, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd.
2. Cyfrannu at ddiwylliant lle mae pobl yn gyntaf, sy’n gwerthfawrogi cynhwysiant ac yn dathlu amrywiaeth.
3. Bod yn aelod gweithredol o’r uwch dîm arwain gan weithio gyda chydweithwyr i gyflawni nodau strategol.
4. Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni cynllun twf sy’n adrodd ein stori ac yn rhoi grym i’n gwaith.
5. Bod yn llysgennad ar ran Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd gyda ffocws allanol cryf.

### Rheoli Gweithrediadau

6. Sicrhau'r incwm mwyaf posibl ar draws y sbectrwm incwm gan gynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau, codi arian corfforaethol, incwm defnyddwyr a rhoddion unigol.
7. Creu nifer mawr o gyfleoedd yn y dyfodol gyda blaengynllunio rhagorol.
8. Nodi, meithrin a rheoli perthnasoedd â phartneriaid posibl.
9. Cydlynu gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid.
10. Bod yn warcheidwad ar gyfer brand Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.
11. Datblygu a chyflwyno strategaethau marchnata a chyfathrebu.
12. Gweithio gyda'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i lunio, pennu a monitro cyllidebau.
13. Arwain a rheoli'r tîm codi arian, marchnata a chyfathrebu.
14. Bod yn gyfrifol am ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am berfformiad, monitro ac adrodd yn erbyn allbynnau, canlyniadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

### Cyffredinol

15. Deall a sicrhau cydymffurfiad â'r amgylchedd rheoleiddio.
16. Hyrwyddo'r safonau uchaf o ran diogelwch, diogelu data ac iechyd a diogelwch.
17. Bodloni terfynau amser y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwr llinell a phartneriaid allweddol yng nghyswllt adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau eraill.
18. Rheoli a datblygu cysylltiadau cadarnhaol cryf yn effeithiol gyda buddiolwyr, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid.
19. Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant perthnasol yn ôl gofynion y rheolwr llinell neu yn unol â disgwyliadau noddwr y rhaglen.
20. Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda staff y Sefydliad, darparwyr cyllid a chyfarfodydd eraill fel y bo'n briodol.
21. Arddangos a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad y cwmni.
22. Hybu a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.
23. Cyflawni unrhyw waith a dyletswyddau ychwanegol sy'n diwallu anghenion y busnes.

## Cysylltiadau Allweddol

### Mewnol

Holl Staff ac Ymddiriedolwyr y Sefydliad.

### Allanol

Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Uwch Gynghrair Lloegr a Chronfa Elusennol Uwch Gynghrair Lloegr, EFL ac EFL yn y Gymuned, Rhoddwyr Pwysig, Partneriaid Corfforaethol, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, Cyrff Dyfarnu Grantiau a chyllidwyr eraill, y Cyfryngau, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, ac unrhyw randdeiliaid allanol eraill sy'n cefnogi ac yn elwa o waith y Sefydliad.

# Manyleb y Person

| Sgiliau/Nodweddion Personol | Hanfodol | Manteisiol |
|---|---|---|
| **Profiad** | | |
| Profiad o weithio gydag uwch dimau rheoli. | ✓ | |
| Profiad o ddatblygu strategaethau codi arian a sicrhau twf ar draws amrywiaeth eang o ffrydiau incwm. | ✓ | |
| Profiad o feithrin, rheoli a chynnal partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol. | ✓ | |
| Profiad o ddatblygu a darparu ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu. | ✓ | |
| Profiad o arwain a rheoli pobl. | ✓ | |
| Profiad o reoli cyllidebau gan gynnwys cynllunio, rhagweld a dadansoddi perfformiad. | ✓ | |
| Profiad o weithio mewn elusen fach i ganolig ei maint. | | ✓ |
| Profiad o weithio gyda'r wasg. | | ✓ |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | | |
| Dealltwriaeth o godi arian a chynhyrchu incwm yn y sector elusennol. | ✓ | |
| Dealltwriaeth o'r amgylchedd allanol a sut mae'n berthnasol i'n gwaith. | ✓ | |
| Dealltwriaeth o gynulleidfaoedd allweddol a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r cynulleidfaoedd hynny. | ✓ | |
| Dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoleiddio. | ✓ | |

| Sgiliau/Nodweddion Personol | Hanfodol | Manteisiol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | | |
| Sgiliau dylanwadu a pherswadio. | ✓ | |
| Gallu cydlynu, cynllunio a threfnu'n effeithiol, blaenoriaethu llwyth gwaith, gweithio dan bwysau, cadw at derfynau amser caeth. | ✓ | |
| Dealltwriaeth o dirwedd(au) addysg, iechyd a chymunedol yng Nghymru. | | ✓ |
| Gallu siarad Cymraeg. | | ✓ |
| **Cymwysterau a Hyfforddiant** | | |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y maes codi arian. | | ✓ |
| **Amgylchiadau Personol** | | |
| Gallu a pharodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen. | ✓ | |
| Trwydded yrru lawn y DU. | ✓ | |
| **Rhinweddau / Nodweddion Personol** | | |
| Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a nodau'r elusen. | ✓ | |
| Agwedd gadarnhaol, ynghyd â'r gallu i weithio fel rhan o dîm ac fel unigolyn. | ✓ | |

# Cymwyseddau Craidd

## 1. Agwedd

- Hyrwyddwr Strategaeth a Gwerthoedd
- Arwain tîm ac unigolion mewn modd proffesiynol, gan fod yn esiampl dda ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad y cwmni
- Atebolrwydd am bethau sy'n digwydd ac sy'n effeithio ar y sefydliad
- Y gallu a'r parodrwydd i arwain timau i sicrhau llwyddiant yn unol â chynlluniau'r sefydliad

## 2. Cyfathrebu

- Gallu cyfathrebu'n glir ac yn gryno ar bob lefel
- Gallu derbyn ac ymateb i adborth
- Gallu rhannu gwybodaeth, syniadau a dadleuon gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol
- Gallu gwrando'n astud, gofyn cwestiynau, egluro pwyntiau, ac aralleirio datganiadau pobl eraill i wirio bod pawb yn deall
- Gallu rhoi gwybod i eraill am gynlluniau, gan nodi'n glir yr hyn sydd ei angen gan eraill

## 3. Datblygu a Phobl

- Da am feithrin timau sy'n perfformio'n dda
- Hyfforddi a mentora timau
- Gallu gwerthuso a gwella gallu pobl i wneud eu gwaith a gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u galluoedd
- Darparu adborth i wella perfformiad yn y dyfodol
- Chwilio am gyfleoedd i wella gwybodaeth a sgiliau eich hun ac eraill

## 4. Ariannol

- Rhagweld, cynllunio a monitro cyllidebau rhaglenni

## 5. Cynllunio a Gwneud Penderfyniadau

- Sicrhau bod cynlluniau'n cyd-fynd â nodau strategol y sefydliad
- Gallu ymateb i anghenion y gymuned leol
- Gallu dylunio rhaglenni arloesol a chreadigol i ddarparu atebion i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg

## 6. Ffocws ar Randdeiliaid a Chleientiaid

- Creu, datblygu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol a dylanwad ymysg rhanddeiliaid
- Gallu dylanwadu

# Gwerthoedd



## Parch

Rydym ni'n dangos parch a thosturi.

## Angerdd

Rydym ni'n angerddol dros ysbrydoli eraill.

## Cynhwysiant

Rydym ni'n hyrwyddo cynhwysiant, yn dathlu amrywiaeth ac yn herio gwahaniaethu.

## Arloesedd

Rydym ni'n dychmygu beth sy'n bosib ac yn ymdrechu i wella'n barhaus.

## Cydweithio

Rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu newid

COMMUNITY
FOUNDATION

info@cardiffcityfc.org.uk
02920 231 212

www.cardiffcityfcfoundation.org.uk

Cardiff City House of Sport
Clos Parc Morgannwg
Cardiff
CF11 8AW

@Cardiff City FC Foundation
@CCFC_Foundation